CODI TÂL AR RIENI AM WEITHGAREDDAU YSGOL

DATGANIAD POLISI

Seilir y polisi hwn ar y gofynion ynglyn â chodi tâl ac unrhyw eithriadau, a ymgorfforir yn Neddf Diwygio Addysg 1988. Mae'r polisi hefyd yn adlewyrchu polisi'r Awdurdod Addysg.

1. YMWELIADAU PRESWYL
   Bydd yr ysgol yn adfer côst lawn ymweliadau preswyl. Bydd yr ysgol yn cynorthwyo'r disgyblion hynny sydd yn derbyn Prydau Ysgol am Ddim.

2. HYFFORDDIANT CERDDOROL YN YSTOD ORIAU YSGOL
   Caiff disgyblion sy'n dilyn cyrsiau TGAU neu Safon Uwch/UG wersi offerynol am ddim gan fod hyn yn rhan o'r cwrs. Codir tâl ar gyfer gwersi offerynol eraill ond darperir disgownt i ddisgyblion sy'n hawlio Prydau Ysgol am Ddim.

3. TRAFNIDIAETH
   Ni chodir tâl am fân deithiau i dderbyn addysg yn ystod oriau ysgol, neu am drafnidiaeth o'r cartref i brofiad gwaith. Gofynnir am gyfraniad tuag at gost trafnidiaeth i weithgareddau allgyrsiol.

4. GWEITHGAREDDAU YN GYFAN NEU'N RHANNOL Y TU ALLAN I ORIAU YSGOL
   Fe ddisgwylir i rieni dalu'r gôst lawn am y gweithgareddau hyn, ac eithrio'r rhai hynny sy'n angenrheidiol i gyflawni gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol neu Addysg Grefyddol.

5. FFIOEDD ARHOLIAD
   - Gweler polisi Arholiadau.

6. DEUNYDD TECHNOLEG A THECHNOLEG BWYD
   Os bydd rhieni yn dymuno cadw unrhyw beth a wnaethpwyd gan eu plant, fe godir y gôst lawn.

7. MALU NEU DDIFROD BWRIADOL
   Fe godir tâl ar rieni am unrhyw ddifrod ar dir yr ysgol sy'n ganlyniad i ymddygiad disgybl. Os bydd mwy nag un disgybl yn gyfrifol, fe rennir y gôst rhwng eu rhieni.

8. GWEITHGAREDDAU YN YSTOD ORIAU YSGOL
   Fe wahoddir cyfraniadau gwirfoddol gan rieni i gynnal gweithgareddau. Os nad yw'r cyfraniadau yn ddigonol, fe ohirir y gweithgaredd.

Adolygwyd Haf 2016

Llofnod: _____ (Cadeirydd y Llywodraethwyr)

Dyddiad: _____